

OWEN, DAVID ('Brutus'; 1795 - 1866), golygydd a llenor

Enw: David Owen

Ffugenw: Brutus

Dyddiad geni: 1795

Dyddiad marw: 1866

Priod: Anne Owen (née Jones)

Rhiant: Rachel Owen

Rhiant: David Benjamin Owen

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: golygydd a llenor

Maes gweithgaredd: Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Meddygaeth; Argraffu a Chyhoeddi

Awdur: Thomas Jones

Ganwyd tua diwedd 1795 (bedyddiwyd ef 25 Rhagfyr 1795) ym mhlwyf Llanpumpsaint, Sir Gaerfyrddin. Yr oedd ei dad, David Benjamin (Owen), yn grydd ac yn glochydd, a'i fam Rachel (Owen), yn aelod gyda'r Bedyddwyr. Cafodd addysg dda a hyfforddiant yn y clasuron. Bwriadai fod yn feddyg ac fe'i prentisiwyd gyda John Thomas, Aberduar, ger Llanbydder. Yn ystod ei brentisiaeth troes at y Bedyddwyr a rhoi ei fryd ar y weinidogaeth. Bu am flwyddyn yn athrofa'r Bedyddwyr ym Mryste cyn ymsefydlu yn Aber, rhwng Bangor a Llanfairfechan, fel ysgolfeistr a phregethwr cynorthwyol. Ymhen tair blynedd symudodd i Lyn i ofalu am gapeli Tal-y-graig, Galltraeth, Tyndonnen, a Rhoshirwaun, ac ordeiniwyd ef yn weinidog rheolaidd. Ymgartrefodd yn Llangian; ac yn ogystal â gweinidogaethu, gwasanaethai fel meddyg gwlad ac ysgolfeistr. Tua 1820 priododd Anne, merch Thomas Jones, Rhandir, ffarmwr o'r gymdogaeth a diacon gyda'r Annibynwyr. Hwyrach mai tlodi ynghyd â byrbwyltra a barodd iddo apelio am help ariannol oddi wrth gymdeithasfa'r Undodiaid, gan haeru fod ei gynulleidfae wedi derbyn syniadau Undodiaid. Dadlennwyd ei dwyll ac fe'i diarddelwyd gan gymanfa'r Bedyddwyr ym Mhwllheli.

Yr hyn a'i dug i amlygrwydd yng Nghymru oedd ei lythyr (dan y ffugenw ' Brutus') yn *Seren Gomer*, Mawrth 1824, yn ymosod ar yr iaith Gymraeg. O hynny allan fel ' Brutus ' yr adwaenid ef. Wedi'i ddiarddel gan y Bedyddwyr, ymaelododd gyda'r Annibynwyr yn y Capel Newydd ac ymroi i gadw ysgol yn Llangian. Cafodd bregethu gyda'r Annibynwyr, ond ni ddaeth yn boblogaidd. Wedyn symudodd i Dyddynsweep, Maenaddfryn, ger Llannerch-y-medd; ond ni bu'n llwyddiannus iawn yn o chwaith, ac yn y man symudodd i'r Bontnewydd ger Caernarfon a chadw ysgol yno. Yn 1828, ar ôl ei benodi'n olygydd *Lleud yr Oes*, cylchgrawn a gyhoeddi yn Aberystwyth, aeth i gadw ysgol yn Llanbadarn-fawr, ond pan brynwyd hawlfraint y cylchgrawn hwnnw yn 1829 gan Jeffrey Jones, yr argraffydd o Lanymddyfri, aeth ' Brutus ' i fyw ym Mhentre-ty-gwyn. Pan fu Jeffrey Jones farw yn 1830, cychwynwyd *Yr Efangelydd*, fel dilynydd i *Lleud yr Oes*, gan bwylgor o weinidogion yr Annibynwyr, gyda ' Brutus ' yn olygydd a [D.R. a W. Rees](#), Llanyddyfri, yn argraffwyr. O dan olygyddiaeth ' Brutus ' troes y cylchgrawn newydd yn fwy gwleidyddol nag y bwriedid iddo fod, a'i duedd at geidwadaeth wleidyddol ac eglwysig, a bygythiwyd troi ' Brutus ' o'i swydd. Diwedd yr anghydfod oedd i'r [Reesiaid](#) sefydlu cylchgrawn newydd, *Yr Haul*, at wasanaeth yr Eglwys Sefydledig, a chyda ' Brutus ' yn olygydd, ac i'r Annibynwyr sefydlu'r *Diwygiwr*, gyda'r [Parch. D. Rees](#) yn olygydd, yn 1835. Dychwelodd ' Brutus ' at yr Eglwys, yn Llywel, a symud i fyw ym Mhwllmadog, ger y Pentre-bach, rhwng Llanyddyfri a Threacastell. Yn ddiweddarach bu'n byw ym Mronarthen, ger yr Half-way. Hyd ddiwedd ei oes parhaodd i olygu 'r *Haul* gyda medr mawr, ond byddai'n mynd yn achlysurol i gapel y Bedyddwyr, Horeb, yng Nghwm-dwr. Y mae'n rhyfedd na chafodd urddau gan yr Eglwys. Bu farw ar 16 Ionawr 1866 a'i gladdu yn eglwys Llywel, lle y mae coflech iddo.

Yr oedd yn ysgrifennwr toreithiog a chyhoeddodd lu o lyfrau crefyddol a diwinyddol; yn eu plith y mae *Athrawiaeth Bedydd Babanod*, 1828; *Cwymp Babilon Fawr*, 1829; *Breinniau Babanod*, 1830; *Daearyddiaeth Ysgrythyrol*, 1835; *Allwedd y Cyssegr*, 1835 (2il arg. 1839); *Christmasia*, 1840 (2il arg. 1861, 3ydd arg. 1887); *Gweithrediadau yr Eglwys Sefydledig*, 1841; *Gwaedd Uwch Gwlad*, 1843; *Eliasia*, 1844; *Darganfyddiadau yn Ninefeh*, 1852 (cyfieithiad o lyfr Saesneg gan A. H. Layard); *Brutusiana*, 1855, detholiad o'i ysgrifeniadau yn *Yr Haul*; a *Cofiant y diweddar Barch. Thomas Williams*, 1861. Nid fel ysgolhaig na diwinydd y mae'n bwysig, ond yn hytrach fel dychanwr. Ei brif gocyn hitio oedd cwacyddiaeth, yn arbennig cwacyddiaeth pregethwyr gwaethaf yr Ymneilltuwyr, y 'Jacs' fel y'u gelwid. Hwynthwy a ddilornir mewn lluo o ysgrifau, traethodau, ac adolygiadau, yn *Ymddiddanion Bugeiliaid Epynt* (detholiad gan [T. Jones](#), 1950) (*Yr Haul*, 1835-6), ac yn *Wil Brydydd y Coed* (ibid., Medi 1863-Rhagfyr 1865), a gyhoeddwyd hefyd ar wahân yn 1876 a 1896.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones

Ffynonellau

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdâr 1867-70)*, ii, 353-5

Y Traethodydd, 1867, 213, 421

The Red Dragon, iii, 385

Seren Gomer, 1898, 1

rhagymadrodd T. Jones i *Wil Brydydd y Coed Cofiant Siencyn Bach y Llwywr a Chofiant Dai Hunandyb* (adarg. 1950)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

